

Astudiaeth achos: defnydd o'r grant dysgu proffesiynol ychwanegol yn 2019/20

Cyd-destun a chefnidir

Yr ysgol

Ysgol cyfrwng Saesneg yng Nghastell-nedd Port Talbot yw Ysgol Gyfun Dŵr-y-Felin ac mae'n rhan o Gonsortiw ERW. Mae gan yr ysgol 1125 o ddysgwyr ar y gofrestr; gyda 15.6 y cant ohonyn nhw yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim; 23.4 y cant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY); 0.4 y cant â Saesneg fel iaith ychwanegol (EAL) a 18 y cant yn ddysgwyr A* ac A yn gyffredinol, yr ystyrir eu bod yn fwy abl a thalentog. Y rhaniad rhwng y rhywiau yn yr ysgol yw 47 y cant yn fechgyn a 53 y cant yn ferched.

Arweinwyr dynodedig ac aelodau o staff addysgu

Mae'r tîm arweinyddiaeth yn cynnwys pennaeth, dirprwy bennaeth, dau bennaeth cynorthwyol a chydlynedd anghenion dysgu ychwanegol. Mae gan yr ysgol 60 o athrawon ac wyth cynorthwydd addysgu.

Swm y grant dysgu proffesiynol ychwanegol

Cafodd Ysgol Uwchradd Dŵr-y-Felin gyfanswm grant o £36,714 yn 2019/20.

Sut y defnyddiwyd y grant ychwanegol

Gweithredu model dysgu proffesiynol

Mae Ysgol Gyfun Dŵr-y-Felin wedi ymrwmo i weithredu'r model ysgol ddysgu proffesiynol. Mae'r ysgol wedi defnyddio'r grant ychwanegol i hwyluso nifer o weithgareddau, gan gynnwys:

- hyfforddiant ar y safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth
- ymgysylltu â dimensiynau ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu
- paratoi ar gyfer trefniadau ADY newydd
- sicrhau'r defnydd gorau o dechnoleg mewn gwersi ac ar gyfer cydweithio
- mynediad at raglenni arweinyddiaeth ar gyfer aelodau o'r staff
- creu nifer o swyddi arweinyddiaeth ar draws nifer o wahanol brosiectau.

Nodir isod enghreifftiau o weithgareddau a'u heffeithiau penodol.

Grŵp rhwydwaith addysgu a dysgu

Mae datblygu Grŵp Rhwydwaith Athrawon wedi cael effaith amlwg ar safonau dysgu ac addysgu. Mae'r grŵp wedi cynnal ymchwil, darllen a threialu adnoddau ac wedi gweithredu eu canfyddiadau ar lefel ysgol gyfan. Mae hyn wedi rhoi llais pwysig i'r staff ar gyfer eu harbenigedd, ac wedi cynnig cyfle iddynt ymgysylltu â'r ddamcaniaeth berthnasol sydd y tu ôl i brosesau gwneud penderfyniadau yn yr ysgol.

Prosiect trawsgwricwlaidd

Datblygodd yr ysgol brosiect trawsgwricwlaidd i dreialu addysgu cydweithredol. Cafodd naw pwnc eu cynnwys yn y prosiect 'Plastics: Who Cares?', gan gwmpasu'r pum maes dysgu a phrofiad (MDPh). Nodau'r prosiect oedd annog dysgu annibynnol a grymuso dysgwyr i wneud dewisiadau cytbwys, cadarnhaol ar y defnydd o blastig.

Prosiectau arbrofol cwricwlwm MDPH

Cynigiwyd cyfle i staff yn Ysgol Dŵr-y-Felin ymgeisio am swyddogaethau arweiniol mewn datblygiad cwricwlwm drwy brosiectau arbrofol ym meysydd lechyd a Lles, y Celfyddydau Mynegiannol a'r Dyniaethau. Pwyslais y rôl oedd archwilio, cynllunio a gweithredu prosiectau cwricwlwm newydd gan ddefnyddio Fframwaith newydd Cwricwlwm i Gymru. Trwy gydol y broses rhoddwyd amser i bob arweinydd a'r holl staff a oedd yn rhan o'r broses gynllunio ar y cyd, ymweld â sefydliadau addysg eraill, paratoi adnoddau a gwerthuso'r broses.

Arweinydd ymchwil weithredu

Datblygwyd rôl arweiniol ar gyfer ymchwil weithredu hefyd, gyda phwyslais ar ddatblygu ymchwil weithredu wedi'i harwain gan athrawon ar draws yr ysgol i wella dysgu proffesiynol a gwella deilliannau dysgwyr. Mae pwyslais cychwynnol yr ymchwil weithredu yn dilyn y dull ymchwiliad trogyloch, gyda chymorth gan Brifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, ac mae'n canolbwyntio ar flaenoriaeth ysgol gyfan (sut i fynd i'r afael â diffyg hyder y dysgwr mewn llafaredd a chael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau dysgwyr).

Effaith y grant ar gydweithwyr ar draws yr ysgol

Mae'r ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol wedi gwella dealltwriaeth athrawon o egwyddorion addysgeg ac wedi gwella safonau dysgu ac addysgu yn yr ystafell ddosbarth. Mae diwylliant o gydweithio wedi'i feithrin ac mae staff wedi teimlo eu bod yn gallu cymryd risgiau moesegol. Mae'r ymgyrch tuag at ddysgu sy'n seiliedig ar ymholi wedi ysgogi darllen ehangach, magu hyder a datblygu ymgysylltiad y staff, a chefnogi a grymuso anghenion proffesiynol aelodau o'r staff.

Cafwyd effaith gadarnhaol hefyd ar nifer y staff sy'n ymgymryd â chymwysterau pellach i gefnogi eu dysgu proffesiynol a pharhau â'u gyrfa broffesiynol.

Effaith y grant ar ddysgwyr

Mae'r prosiectau cydweithredol wedi helpu dysgwyr i wneud cysylltiadau ar draws gwahanol agweddau ar eu dysgu, ac wedi dysgu dysgwyr yn Dŵr-y-Felin i ddod o hyd i atebion cadarnhaol i broblemau. Mae llais y disgybl wedi dod yn nodwedd gref ar draws yr ysgol wrth foddelu dysgu ac addysgu. Mae'r prosiectau cwricwlwm wedi cael effaith gadarnhaol ar annibyniaeth dysgwyr a'u cadernid wrth ddysgu. Mae ymgysylltiad a mwynhad y dysgwr wedi cynyddu, fel y gellir gweld yn y dyfyniadau gan ddysgwyr isod.

Fe wnes i hoffi gweithio ar rywbeth gwahanol, ac fe'i cawsom yn y rhan fwyaf o wersi, felly roedd hi'n haws cofio.

Roedd edrych ar faterion y byd go iawn am newid yn hwyl ac yn ddiddorol iawn.

Mwynheais y prosiect plastigau am fod y tasgau y bu'n rhaid i ni eu gwneud yn hwyl ac yn ehangu ein gwybodaeth am yr hyn sy'n digwydd yn y byd heddiw, a nawr rwy'n teimlo'n gryfach fyth bod angen i ni achub ein planed!

Gwersi a ddysgwyd am ddysgu proffesiynol i'w cymhwyso ar draws yr ysgol

Mae mapio cyfleoedd dysgu proffesiynol ar lefel ysgol gyfan wedi cael effaith enfawr. Mae cynnwys yr holl aelodau staff dysgu a'r aelodau staff eraill mewn dysgu proffesiynol sy'n gweddu'n uniongyrchol i'w hanghenion wedi golygu bod staff yn fwy parod i ymgysylltu.

Canfu'r ysgol fod datblygu athrawon i ddod yn arweinwyr wedi helpu i gymell staff ac wedi rhoi profiad gwahanol iddyn nhw o ran datblygu eu dysgu proffesiynol eu hunain.

Mae datblygu prosiectau cydweithio ar draws amgylchedd dysgu'r ysgol wedi rhoi rhyddid i ddysgwyr ddewis. Wrth gynllunio prosiectau yn y dyfodol, mae rhoi mwy o ddewis i ddysgwyr yn hanfodol i hybu annibyniaeth ac ymgysylltiad pob dysgwr.

Gwersi a ddysgwyd am ddysgu proffesiynol i'w rhannu ag ysgolion eraill

Mae cyflwyno grŵp athrawon i arwain ar y cwricwlwm newydd, addysgeg neu'r meysydd dysgu a phrofiad, wedi bod yn offeryn pwerus ar gyfer sbarduno datblygiad ysgol gyfan. Mae wedi rhoi'r cyfle i ddatblygu dysgu ac addysgu drwy rannu arfer gorau ac arbenigedd o fewn yr ysgol.

Canfu'r ysgol hefyd, drwy ddatblygu athrawon i fod yn hyfforddwyr/mentoriaid i gydweithwyr o fewn yr ysgol a'r clwstwr ehangach, fod gan staff fwy o ysgogiad a'u bod yn cael profiad gwahanol o ran datblygu eu dysgu proffesiynol eu hunain a bodloni'r safonau proffesiynol newydd ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth.

Mae cynyddu cydweithrediad, drwy drafodaethau ffurfiol ac anffurfiol am addysgeg, yn arwain at wella perfformiad yr ysgol a chodi safonau drwy'r ysgol gyfan, gan ddatblygu addysgu rhagorol a chynnydd mewn dysgu.

Camau nesaf

Bydd Ysgol Gyfun Dŵr-y-Felin yn:

- cydweithio ag ysgolion cynradd y clwstwr a datblygu cyfleoedd ar gyfer dysgu proffesiynol yn gysylltiedig â'r cwricwlwm newydd i Gymru, gan ganolbwyntio ar Faes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles
- rhannu canfyddiadau a phrofiadau prosiectau arbrofol y cwricwlwm ym meysydd Iechyd a Lles, y Celfyddydau Mynegiannol a'r Dyniaethau trwy HMS cwricwlwm
- hunanwerthuso brosiectau arbrofol y cwricwlwm trwy gyfrwng llais y disgybl, y staff a'r rhieni/gofalwyr
- darparu dysgu proffesiynol i staff ar ddatblygiadau newydd yn y cwricwlwm, sy'n cynnwys rhesymeg, cynllun y cwricwlwm a datganiadau o'r hyn sy'n bwysig wedi'u mireinio
- nodi cyfleoedd ar gyfer prosiectau cwricwlwm yn y dyfodol o fewn y tri MDPH sy'n weddill a darparu cymorth dysgu proffesiynol gan arweinwyr y cwricwlwm
- datblygu ymhellach amgylchedd dysgu proffesiynol yn Ysgol Gyfun Dŵr-y-Felin sy'n cael ei sbarduno gan ymchwil weithredu drwy ymholi.